



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2008 Rhif 1341 (Cy.141)

2008 No. 1341 (W.141)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

Rheoliadau Brasterau Taenadwy
(Safonau Marchnata) a Llaeth a
Chynhyrchion Llaeth (Diogelu
Dynodiadau) (Cymru)
2008

The Spreadable Fats (Marketing
Standards) and the Milk and Milk
Products (Protection of
Designations) (Wales) Regulations
2008

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi, o ran Cymru, ddarpariaethau penodol yn Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth o farchnadoedd amaethyddol ac sy'n ymdrin â darpariaethau penodol ar gyfer cynhyrchion amaethyddol penodedig (OJ Rhif L299, 16.11.2007, t.1) ("Rheoliad y Cyngor").

1. These Regulations provide for the execution and enforcement, in relation to Wales, of certain provisions of Council Regulation (EC) No. 1234/2007 establishing a common organisation of agricultural markets and on specific provisions for certain agricultural products (OJ No. L299, 16.11.2007, p.1) ("the Council Regulation").

2. Mae Rheoliad y Cyngor yn diddymu nifer o offerynnau eraill yr Undeb Ewropeaidd ("UE") ac yn ailddeddfu eu darpariaethau heb eu diwygio. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gorfodi darpariaethau a gynhwyswyd gynt yn nau o offerynnau'r Gymuned Ewropeaidd ("CE") a ddiddymwyd ac a orfodwyd o'r blaen mewn dau offeryn statudol ar wahân.

2. The Council Regulation repeals a number of other EU instruments and re-enacts their provisions without amendment. These Regulations provide for the enforcement of provisions formerly contained in two of the repealed EC instruments and formerly enforced in two separate statutory instruments.

3. Mae darpariaethau Rheoliad y Cyngor yn cynnwys:

3. The provisions of the Council Regulation include:

- (a) y gofyniad bod rhaid i laeth a chynhyrchion llaeth sy'n cael eu marchnata i bobl eu hyfed neu eu bwyta gydymffurfio â manylebau penodol ynghylch enwau a chyfansoddiad (*Erthygl 114(1) ac Atodiad XII*); a
- (b) y gofyniad bod rhaid i frasterau taenadwy penodol sydd wedi'u bwriadu i bobl eu bwyta gydymffurfio â manylebau ynglyn â'u disgrifiad at ddibenion gwerthu, dull eu labelu a'u cyflwyno, a'r defnydd o derminoleg (*Erthygl 115 ac Atodiad XV*).

- (a) the requirement that milk and milk products marketed for human consumption must comply with certain specifications as to names and composition (*Article 114(1) and Annex XII*); and
- (b) the requirement that certain spreadable fats intended for human consumption must comply with specifications relating to their sales description, labelling and presentation, and use of terminology (*Article 115 and Annex XV*).

4. Mae'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliad y Cyngor ynghylch brasterau taenadwy wedi'u hategu gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 445/2007 (OJ Rhif L106, 24.4.2007, t.24).

5. Mae'r Rheoliadau yn yr offeryn hwn —

- (a) yn darparu esemptiad ar gyfer brasterau taenadwy a fewnforir o wladwriaeth AAE ac eithrio Aelod-wladwriaeth (*rheoliad 3(1)*);
- (b) yn pennu'r lefelau gofynnol ar gyfer fitaminau penodol mewn margarîn (*rheoliad 4*), yn ddarostyngedig i esemptiad ar gyfer margarinau y deuir â hwy i Gymru o fannau eraill yn yr AAE neu'r DU ac nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheolau cenedlaethol hyn (*rheoliad 3(2)*);
- (c) yn dynodi'r awdurdodau sy'n gyfrifol am orfodi'r Rheoliadau hyn a'r Rheoliadau UE a grybwyllwyd ym mharagraffau 3 a 4 uchod (*rheoliad 5*);
- (ch) yn creu tramgwydd diannod o fethu â chydymffurfio â gofynion y Rheoliadau hyn neu ddarpariaethau perthnasol yr UE (*rheoliad 6*); a
- (d) yn cymhwyso darpariaethau penodol Deddf Diogelwch Bwyd 1990 at ddibenion y Rheoliadau hyn.

6. Nid oes asesiad rheoleiddiol llawn wedi'i lunio ar gyfer yr offeryn hwn, gan na ragwelir y bydd yr offeryn yn effeithio o gwbl ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.

4. The provisions contained in the Council Regulation as regards spreadable fats are supplemented by Commission Regulation (EC) No. 445/2007 (OJ No. L106, 24.4.2007, p.24).

5. The Regulations in this instrument —

- (a) provide an exemption for spreadable fats imported from an EEA state other than a Member State (*regulation 3(1)*);
- (b) specify the required levels for certain vitamins in margarine (*regulation 4*), subject to an exemption for margarines brought into Wales from elsewhere in the EEA or the UK that do not comply with these national rules (*regulation 3(2)*);
- (c) designate the authorities responsible for enforcement of these Regulations and the EU Regulations mentioned in paragraphs 3 and 4 above (*regulation 5*);
- (d) create a summary offence of failing to comply with the requirements of these Regulations or the relevant EU provisions (*regulation 6*); and
- (e) apply certain provisions of the Food Safety Act 1990 for the purposes of these Regulations.

6. A full regulatory assessment has not been produced for this instrument as no impact on the private or voluntary sectors is foreseen.

2008 Rhif 1341 (Cy.141)

2008 No. 1341 (W.141)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

**Rheoliadau Brasterau Taenadwy
(Safonau Marchnata) a Llaeth a
Chynhyrchion Llaeth (Diogelu
Dynodiadau) (Cymru)
2008**

**The Spreadable Fats (Marketing
Standards) and the Milk and Milk
Products (Protection of
Designations) (Wales) Regulations
2008**

Gwnaed 21 Mai 2008
*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 22 Mai 2008
Yn dod i rym 1 Gorffennaf 2008

Made 21 May 2008
*Laid before the National
Assembly for Wales* 22 May 2008
Coming into force 1 July 2008

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1), 17(2), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 16(1), 17(2), 26(1) and (3) and 48(1) of the Food Safety Act 1990(1).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, maent wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd iddynt gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

In accordance with section 48(4A) of that Act they have had regard to relevant advice given by the Food Standards Agency.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(2), cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus agored a thryloyw tra'r oedd y Rheoliadau hyn yn cael eu llunio a'u gwerthuso.

As required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(2), there has been open and transparent public consultation during the preparation and evaluation of these Regulations.

(1) 1990 p. 16. Amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (y diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adrannau 17 a 48 gan baragraffau 12 a 21 yn ôl eu trefn o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), ("Deddf 1999"). Diwygiwyd adran 48 hefyd gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adran 26(3) gan Atodlen 6 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 53(2) gan baragraff 19 o Atodlen 16 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (1994 p.40), Atodlen 6 i Ddeddf 1999 ac O.S. 2004/2990. Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers", i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S.1999/672 fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999, ac a wnaed yn arferadwy wedi hynny gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(2) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 575/2006 (OJ Rhif L100, 8.4.2006, t.3).

(1) 1990 c. 16. Section 1(1) and (2) (definition of "food") was substituted by S.I. 2004/2990. Sections 17 and 48 were amended by paragraphs 12 and 21 respectively of Schedule 5 to the Food Standards Act 1999 (1999 c.28), ("the 1999 Act"). Section 48 was also amended by S.I. 2004/2990. Section 26(3) was amended by Schedule 6 to the 1999 Act. Section 53(2) was amended by paragraph 19 of Schedule 16 to the Deregulation and Contracting Out Act 1994 (1994 c.40), Schedule 6 to the 1999 Act and S.I. 2004/2990. Functions formerly exercisable by "the Ministers" so far as they are exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by S.I. 1999/672 as read with section 40(3) of the 1999 Act and thereafter made exercisable by the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(2) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1. That Regulation was last amended by Commission Regulation (EC) No. 575/2006 (OJ No. L100, 8.4.2006, p.3).

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) a Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Diogelu Dynodiadau) (Cymru) 2008; maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 1 Gorffennaf 2008.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

mae i "awdurdod bwyd" yr ystyr sydd i'r ymadrodd "*food authority*" yn rhinwedd adran 5(1A) o'r Ddeddf;

ystyr "darpariaeth Gymunedol" ("*Community provision*") yw darpariaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 6(2);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "fitamin A" ("*vitamin A*") yw fitamin A sy'n bresennol fel y cyfryw neu ar ffurf ei esterau ac mae'n cynnwys beta-caroten ar y sail bod 6 microgram o feta-caroten neu 12 microgram o garotenau eraill sy'n fiolegol actif yn hafal i un microgram o gyfwerth retinol;

ystyr "fitamin D" ("*vitamin D*") yw'r fitaminau gwrth-lechau;

mae "gwerthu" ("*sell*") yn cynnwys meddu ar rywbeth i'w werthu, a chynnig rhywbeth, ei roi ar ddangos neu ei hysbysebu i'w werthu;

ystyr "manwerthu" ("*sell by retail*") yw gwerthu i berson nad yw'n prynu er mwyn adwerthu;

ystyr "Rheoliad y Comisiwn" ("*the Commission Regulation*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 445/2007 sy'n gosod rheolau manwl penodol ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2991/94 sy'n gosod safonau ar gyfer brasterau taenadwy a Rheoliad y Comisiwn (EEC) Rhif 1898/87 ar ddiogelu dynodiadau a ddefnyddir i farchnata llaeth a chynhyrchion llaeth(1);

ystyr "Rheoliad y Cyngor" ("*the Council Regulation*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth o farchnadoedd amaethyddol (CFA) ac sy'n ymdrin â darpariaethau penodol ar gyfer cynhyrchion amaethyddol penodedig (Rheoliad CFA Sengl)(2).

Title, application and commencement

1. The title of these Regulations is the Spreadable Fats (Marketing Standards) and the Milk and Milk Products (Protection of Designations) (Wales) Regulations 2008: they apply in relation to Wales and come into force on 1 July 2008.

Interpretation

2.—(1) In these Regulations —

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Food Safety Act 1990;

"the Council Regulation" ("*Rheoliad y Cyngor*") means Council Regulation (EC) No. 1234/2007 establishing a common organisation of agricultural markets and on specific provisions for certain agricultural products (Single CMO Regulation)(1);

"the Commission Regulation" ("*Rheoliad y Comisiwn*") means Commission Regulation (EC) No.445/2007 laying down certain detailed rules for the application of Council Regulation (EC) No. 2991/94 laying down standards for spreadable fats and of Council Regulation (EEC) No. 1898/87 on the protection of designations used in the marketing of milk and milk products(2);

"Community provision" ("*darpariaeth Gymunedol*") means a provision referred to in regulation 6(2);

"food authority" ("*awdurdod bwyd*") has the meaning it bears by virtue of section 5(1A) of the Act;

"sell" ("*gwerthu*") includes possess for sale, and offer, expose or advertise for sale;

"sell by retail" ("*manwerthu*") means to sell to a person who is not buying for the purpose of resale;

"vitamin A" ("*fitamin A*") means vitamin A present as such or as its esters and includes beta-carotene on the basis that 6 micrograms of beta-carotene or 12 micrograms of other biologically active carotenoids equal one microgram of retinol equivalent;

"vitamin D" ("*fitamin D*") means the anti-rachitic vitamins.

(1) OJ Rhif L106, 24.4.2007, t.24.

(2) OJ Rhif L299, 16.11.2007, t.1. Mae diwygiadau i'r Rheoliad hwn ond nid yw unrhyw un ohonynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(1) OJ No. L299, 16.11.2007, p.1. There are amendments to this Regulation but none are relevant to this instrument.

(2) OJ No. L106, 24.4.2007, p.24.

(2) Mae i ymadroddion eraill a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac y mae'r ymadroddion Saesneg sy'n cyfateb iddynt yn ymddangos yn Rheoliad y Cyngor neu Reoliad y Comisiwn yr un ystyron yn y Rheoliadau hyn ag sydd i'r ymadroddion Saesneg hynny yn Rheoliad y Cyngor neu Reoliad y Comisiwn.

Esemptiadau rhag y Rheoliadau hyn

3.—(1) Ac eithrio pan fo paragraff (2) yn gymwys, onid oes, a hyd oni fydd, penderfyniad gan Gydbwyllgor yr AEE i ddiwygio Cytundeb yr AEE o dan Erthygl 98 fel y bydd yn cyfeirio at Reoliad y Cyngor a Rheoliad y Comisiwn, ni fydd y Rheoliadau hyn yn gymwys mewn cysylltiad ag unrhyw fraster taenadwy y mae Cytundeb yr AEE yn gymwys iddo ac—

- (a) y daethpwyd ag ef i Gymru —
 - (i) o Wladwriaeth AAE (ac eithrio Aelod-wladwriaeth) lle cafodd ei gynhyrchu a'i werthu'n gyfreithlon, neu
 - (ii) o ran arall o'r Deyrnas Unedig os daethpwyd â'r braster taenadwy hwnnw yno o Wladwriaeth AAE o'r fath; a
- (b) sydd wedi'i labelu'n addas i ddangos natur y braster taenadwy.

(2) Ni fydd rheoliad 4 yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw fargarîn —

- (a) y daethpwyd ag ef i Gymru —
 - (i) o Wladwriaeth AAE (ac eithrio'r Deyrnas Unedig) lle cafodd ei gynhyrchu a'i werthu'n gyfreithlon,
 - (ii) o Aelod-wladwriaeth (ac eithrio'r Deyrnas Unedig) lle'r oedd mewn cylchrediad rhydd ac yn cael ei werthu'n gyfreithlon, neu
 - (iii) o ran arall o'r Deyrnas Unedig lle'r oedd yn cael ei gynhyrchu a'i werthu'n gyfreithlon neu mewn cylchrediad rhydd ac yn cael ei werthu'n gyfreithlon; a
- (b) sydd wedi'i labelu'n addas i ddangos natur y margarîn.

(3) At ddibenion paragraff (2), mae i "cylchrediad rhydd" yr un ystyr â "*free circulation*" yn Erthygl 23(2) o'r Cytuniad a sefydlodd y Gymuned Ewropeaidd.

Cynnwys margarîn o ran fitaminau

4. Ni chaiff neb fanwerthu unrhyw fargarîn onid yw'n cynnwys ym mhob 100 gram —

- (a) dim llai nag 800 microgram a dim mwy na 1,000 o ficrogramau o fitamin A, a
- (b) dim llai na 7.05 microgram a dim mwy nag 8.82 ficrogram o fitamin D,

(2) Other expressions used in these Regulations and in the Council Regulation or the Commission Regulation have the same meaning in these Regulations as they have in the Council Regulation or the Commission Regulation.

Exemptions from these Regulations

3.—(1) Except where paragraph (2) applies, unless and until there is a decision by the EEA Joint Committee to amend the EEA Agreement under Article 98 so as to refer to the Council Regulation and the Commission Regulation, these Regulations will not apply in respect of any spreadable fat to which the EEA Agreement applies and which —

- (a) is brought into Wales —
 - (i) from an EEA State (other than a member State) in which it was lawfully produced and sold, or
 - (ii) from another part of the United Kingdom if that spreadable fat was brought there from such an EEA State; and
- (b) is suitably labelled to indicate the nature of the spreadable fat.

(2) Regulation 4 does not apply in respect of any margarine which —

- (a) is brought into Wales —
 - (i) from an EEA State (other than the United Kingdom) in which it was lawfully produced and sold,
 - (ii) from a member State (other than the United Kingdom) in which it was in free circulation and lawfully sold, or
 - (iii) from another part of the United Kingdom in which it was lawfully produced and sold or in free circulation and lawfully sold; and
- (b) is suitably labelled to indicate the nature of the margarine.

(3) For the purposes of paragraph (2), "free circulation" has the meaning it bears in Article 23(2) of the Treaty establishing the European Community.

Vitamin content of margarine

4. No person may sell by retail any margarine unless it contains in every 100 grams —

- (a) not less than 800 micrograms and not more than 1,000 micrograms of vitamin A, and
- (b) not less than 7.05 micrograms and not more than 8.82 micrograms of vitamin D,

a swm cymesur mewn unrhyw ran o 100 gram.

Gorfodi

5. Rhaid i bob awdurdod bwyd yn ei ardal weithredu a gorfodi'r darpariaethau Cymunedol a'r Rheoliadau hyn.

Tramgwyddau a chosb

6.—(1) Bydd unrhyw berson sy'n mynd yn groes i unrhyw un o'r canlynol, neu'n methu â chydymffurfio â'r naill neu'r llall ohonynt, sef —

- (a) rheoliad 4; neu
- (b) unrhyw ddarpariaeth Gymunedol,

yn euog o dramgwydd ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

(2) Y darpariaethau Cymunedol yw —

- (a) Erthygl 114(1) o Reoliad y Cyngor (disgrifiadau rhagnodedig ar gyfer llaeth a chynhyrchion llaeth) fel y'i darllenir gydag Atodiad XII i'r Rheoliad hwnnw;
- (b) Erthygl 115 o Reoliad y Cyngor (safonau marchnata sy'n gymwys i frasterau taenadwy, gan gynnwys meini prawf cyfansoddiadol ar gyfer disgrifiadau neilltuedig), fel y'i darllenir gydag —
 - (i) Atodiad XV i Reoliad y Cyngor,
 - (ii) Erthygl 1 o Reoliad y Comisiwn ac Atodiad I iddo, neu
 - (iii) Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn ac Atodiad II iddo; ac
- (c) Erthygl 3 o Reoliad y Comisiwn (gofynion sy'n ymwneud â defnyddio'r dynodiad "*butter*" ar gyfer cynhyrchion cyfansawdd) fel y'i darllenir gydag Atodiad III i'r Rheoliad hwnnw.

Cymhwyso amrywiol ddarpariaethau'r Ddeddf

7.—(1) Bydd darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad bod unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu at Ran ohoni i'w ddehongli fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn —

- (a) adran 2 (ystyr estynedig "*sale*" etc.);
- (b) adran 3 (rhagdybiaethau bod bwyd wedi'i fwriadu i bobl ei fwyta);
- (c) adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);
- (ch) adran 21 (amddiffyniad o ddiwydrwydd dyladwy), fel y bo'n gymwys at ddibenion adran 14 neu 15;
- (d) adran 22 (amddiffyniad cyhoeddi wrth gynnal busnes);

and a proportionate amount in any part of 100 grams.

Enforcement

5. Each food authority in its area shall execute and enforce the Community provisions and these Regulations.

Offences and penalty

6.—(1) Any person who contravenes or fails to comply with —

- (a) regulation 4; or
- (b) any Community provision,

is guilty of an offence and liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale.

(2) The Community provisions are —

- (a) Article 114(1) of the Council Regulation (prescribed descriptions for milk and milk products) as read with Annex XII to that Regulation;
- (b) Article 115 of the Council Regulation (marketing standards applying to spreadable fats, including compositional criteria for reserved descriptions), as read with —
 - (i) Annex XV to the Council Regulation,
 - (ii) Article 1 of and Annex I to the Commission Regulation, or
 - (iii) Article 2 of and Annex II to the Commission Regulation; and
- (c) Article 3 of the Commission Regulation (requirements relating to the use of the designation "*butter*" for composite products) as read with Annex III to that Regulation.

Application of various provisions of the Act

7.—(1) The following provisions of the Act shall apply for the purposes of these Regulations with the modification that any reference in those provisions to the Act or Part thereof is to be construed as a reference to these Regulations —

- (a) section 2 (extended meaning of "*sale*" etc);
- (b) section 3 (presumptions that food intended for human consumption);
- (c) section 20 (offences due to fault of another person);
- (d) section 21 (defence of due diligence), as it applies for the purposes of section 14 or 15;
- (e) section 22 (defence of publication in the course of a business);

- (dd) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);
- (e) adran 33 (rhwystru swyddogion);
- (f) adran 35(1) i (3) (cosbi am dramgwyddau), i'r graddau y mae'n ymwneud â thrangwyddau o dan adran 33(1) a (2);
- (ff) adran 36 (tramgwyddau gan gyrrff corfforaethol); ac
- (g) adran 36A (tramgwyddau gan bartneriaethau Albanaidd).

(2) Bydd adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddiwyll) o'r Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn ac, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad at y Ddeddf yn yr adran honno at ddibenion y Rheoliadau hyn fel un sy'n cynnwys cyfeiriad at y darpariaethau Cymunedol.

Dirymiadau

8. Mae'r offerynnau canlynol wedi'u dirymu —

- (a) Rheoliadau Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Diogelu Dynodiadau) 1990(1), i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru;
- (b) Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) (Cymru) 2001(2);
- (c) Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) (Cymru) (Diwygio) 2007(3).

- (f) section 30(8) (which relates to documentary evidence);
- (g) section 33 (obstruction of officers);
- (h) section 35(1) to (3) (punishment of offences) in so far as it relates to offences under section 33(1) and (2);
- (i) section 36 (offences by bodies corporate); and
- (j) section 36A (offences by Scottish partnerships).

(2) Section 44 (protection of officers acting in good faith) of the Act shall apply for the purposes of these Regulations and, unless the context otherwise requires, any reference to the Act in that section shall be construed for the purposes of these Regulations as including a reference to the Community provisions.

Revocations

8. The following instruments are revoked —

- (a) The Milk and Milk Products (Protection of Designations) Regulations 1990(1), in so far as they apply in relation to Wales;
- (b) The Spreadable Fats (Marketing Standards) (Wales) Regulations 2001(2);
- (c) The Spreadable Fats (Marketing Standards) (Wales) (Amendment) Regulations 2007(3).

Gwenda Thomas

O dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.

21 Mai 2008

Under authority of the Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers.

21 May 2008

(1) O.S. 1990/607, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1990/2486.

(2) O.S. 2001/1361 (Cy.89), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/1905 (Cy.163).

(3) O.S. 2007/1905 (Cy.163).

(1) S.I. 1990/607, as amended by S.I. 1990/2486.

(2) S.I. 2001/1361 (W.89), as amended by S.I. 2007/1905 (W.163).

(3) S.I. 2007/1905 (W.163).

WELSH

○

£3.00

W324/06/08

ON